# ARDOLL YMWELWYR A CHOFRESTR O DDARPARWYR LLETY YMWELWYR







Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Daeth y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) yn gyfraith ym mis Medi 2025. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru gofrestru, ac yn galluogi i gynghorau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardal.

Yn ein barn ni, mae'n deg ac yn rhesymol gofyn i ymwelwyr wneud taliad bach tuag at gostau twristiaeth. Mae twristiaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi economïau lleol. Ond os yw'n anghytbwys, heb sylfaen i'w chynnal, gall roi pwysau ar gymunedau lleol a thanseilio'r gwasanaethau a'r profiadau o ansawdd rydyn ni i gyd am eu cael ac am eu cynnig i ymwelwyr.





## Cyfraddau'r ardoll a sut caiff ei thalu

- 75c y pen y noson mewn meysydd gwersylla ac mewn hosteli a'u tebyg **(ac eithrio pobl o dan 18 oed).**
- £1.30 y pen y noson ar gyfer mathau eraill o lety.

Mae'n debygol y bydd y darparwr llety ymwelwyr yn pasio'r tâl ymlaen, felly efallai y byddwch chi'n ei weld ar eich bil pan fyddwch yn aros dros nos mewn ardal sy'n codi ardoll o fis Ebrill 2027 ymlaen. Bydd yr ardoll yn cael ei rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Rydyn ni wedi cadw'r gyfradd yn isel o'i chymharu â llawer o ardollau ymwelwyr eraill ledled y byd, ac rydyn ni wedi cadw dyluniad yr ardoll yn syml i'w gwneud yn haws i fusnesau ac ymwelwyr ei deall.



## Pwy sydd DDIM yn gorfod talu'r ardoll ymwelwyr

Dim ond os ydych chi mewn ardal lle mae'r cyngor lleol wedi ei chyflwyno y bydd rhaid i chi dalu'r ardoll.

Does dim angen talu'r ardoll os yw'r arhosiad dros nos ar gyfer rhywun sydd:

- o dan 18 oed ac yn aros ar lain wersylla neu mewn ystafell hostel a rennir (neu lety tebyg a rennir)
- yn aros mwy na 31 noson ar un archeb
- yn aros mewn llety brys neu dros dro a drefnwyd gan y cyngor lleol.

## Ad-daliadau:

Mae'r bobl ganlynol yn gymwys i wneud cais am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru

- Pobl anabl sy'n talu costau ardoll ychwanegol pan fyddant yng nghwmni gofalwr.
- Pobl sy'n ffoi rhag trais domestig.

## Defnyddio'r arian a godir

**Bydd awdurdodau lleol yn ymgynghori â thrigolion a busnesau cyn cyflwyno ardoll. Byddant yn sefydlu Fforwm Partneriaeth o gynrychiolwyr twristiaeth lleol i gynghori ar y defnydd o gronfeydd ardoll ymwelwyr a bydd adroddiad blynyddol yn dangos sut mae refeniw o'r ardoll o fudd i'w hardal.**

Pe bai pob awdurdod lleol yn cyflwyno ardoll ymwelwyr, gallai godi hyd at £33 miliwn ledled Cymru. Bydd awdurdodau lleol yn buddsoddi'r arian mewn twristiaeth, gan helpu i dyfu ein heconomi'n gynaliadwy a chefnogi ein cymunedau.

Bydd yr arian newydd hwn yn helpu ardaloedd lleol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â lletya ymwelwyr, megis glanhau strydoedd, casglu gwastraff, cynnal toiledau, a diogelu atyniadau naturiol a diwylliannol i bawb eu mwynhau. Bydd hyn yn hyrwyddo enw da cyrchfannau ac yn gwella ansawdd bywyd trigolion. Mae gan yr ardoll y potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol a gweladwy.





# Ardollau ymwelwyr mewn mannau eraill

Mae ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws y byd, megis yng Ngwlad Groeg, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Mae'r syniad yn ennill tir yn fyd-eang. Mae cyrchfannau'n defnyddio trethiant yn gynyddol i gefnogi twristiaeth, gan gynnwys i ariannu'r gwaith o adfer treftadaeth ddiwylliannol a diogelu natur. Yn y gwledydd sy'n defnyddio ardollau, mae economïau ymwelwyr yn parhau i ffynnu.

Os ydych chi wedi trefnu gwyliau i un o'r lleoedd hyn, byddwch wedi cyfrannu at y diwydiant twristiaeth lleol drwy dalu ardoll.

## Ynysoedd Baleares

Yn 2016, cyflwynodd Ynysoedd Baleares dreth gynaliadwy i gefnogi prosiectau twristiaeth. Yn 2023, ymwelodd mwy na 17.8 miliwn o dwristiaid, sef cynnydd o 8% dros ddau ddegawd. Mae'r dreth wedi ariannu 168 o brosiectau gwerth €263 miliwn, ac yn 2023 cafodd 27 o brosiectau newydd, gwerth cyfanswm o €138 miliwn, eu cymeradwyo. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar yr amgylchedd, twristiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, ymchwil, hyfforddiant, a thai rhent cymdeithasol.

Mae'r dreth yn berthnasol i lety gwyliau. Y gyfradd yw €4 y pen y dydd ar gyfer gwestai moethus, €3 ar gyfer gwestai ystod ganolig, a €2 ar gyfer fflatiau, llongau mordeithio, safleoedd gwersylla, a hostelau. Mae'r refeniw yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu adnoddau ar yr ynysoedd.

## Catalwnia a Barcelona

Yng Nghatalwnia, mae arian o'r ardoll wedi cael ei ddefnyddio i ariannu datblygiadau seilwaith, cadwraeth amgylcheddol a gwaith diogelu treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r ardoll ymwelwyr wedi chwarae rhan hanfodol o ran hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy yn y rhanbarth.

Mae gan Barcelona dreth dwristiaeth hefyd. Ers 2012, mae'r dreth wedi cynhyrchu gwerth €72.7 miliwn o refeniw i'r ddinas, sydd wedi cael ei ddefnyddio tuag at reoli, hyrwyddo a datblygu cyrchfannau. Bydd arian a gynhyrchir o drethi twristiaeth yn cael eu dynodi i gefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar gadwraeth amgylcheddol, hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, diogelu treftadaeth hanesyddol, cefnogi ymchwil wyddonol, meithrin datblygiad cymunedol, cryfhau gweithgareddau diwylliannol a chreadigol, ac annog arloesedd twristiaeth.

## Gwlad yr Iâ

Mae Gwlad yr Iâ wedi defnyddio ei hardoll i ariannu datblygiadau seilwaith, cadwraeth amgylcheddol a gwaith diogelu treftadaeth ddiwylliannol. Mae gwell seilwaith yn rhoi hwb i dwristiaeth mewn ardaloedd sy'n derbyn llai o ymwelwyr, tra bod prosiectau cadwraeth yn cynnal harddwch naturiol Gwlad yr Iâ. Yn ogystal, mae'n cefnogi'r gwaith o adfer safleoedd hanesyddol a chanolfannau diwylliannol, gan wella'r profiad i ymwelwyr a diogelu treftadaeth y wlad. Mae'r ardoll ymwelwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth, seilwaith a chadwraeth ddiwylliannol gynaliadwy yno.

## De Tyrol, yr Eidal

Mae ardollau ymwelwyr yn gyffredin ar draws yr Eidal, gan gynnwys yn Rhufain a Fenis. Yn Ne Tyrol, mae arian o'r ardoll ymwelwyr wedi cael ei ddefnyddio i wella profiad ymwelwyr a hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae prosiectau amrywiol wedi elwa, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi cymdeithasau twristiaeth lleol ac yn diogelu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y rhanbarth. Mae'r ymdrechion hyn wedi cynyddu'r refeniw o dwristiaeth yn ogystal â gwella boddhad ymwelwyr yn sylweddol.

## Y Deyrnas Unedig

Mae llawer o leoedd sy'n agosach at adref yn profi'r manteision posibl y gall ardoll ymwelwyr eu cynnig i ardal.

Ym mis Ebrill 2023, cyflwynodd Manceinion Dâl Ymweld â'r Ddinas o £1 y pen y noson. Dyma dâl sy'n cael ei godi gan 73 o westai yng nghanol y ddinas, ac yn ei flwyddyn gyntaf cododd £2.8 miliwn i gefnogi digwyddiadau newydd.

Pasiodd Senedd yr Alban ddeddfwriaeth, Deddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll yn seiliedig ar ganran o gost y llety, gyda phob cyfradd yn cael ei phennu gan gynghorau unigol. Bydd Caeredin yn cyflwyno ardoll o 5% ar ystafelloedd yn 2026. Mae Aberdeen wedi dewis codi tâl o 7%. Mae awdurdodau lleol eraill yn yr Alban yn ystyried cyflwyno ardoll.

Mae Caerfaddon, Lerpwl, Birmingham a Llundain yn ystyried y syniad o gyflwyno tâl tebyg.

## Cofrestr Genedlaethol

Bydd angen i unrhyw un sy'n darparu llety ymwelwyr gofrestru. Bydd hyn yn darparu data gwerthfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu twristiaeth yn y dyfodol, a helpu i gasglu'r ardoll yn effeithlon, yn yr ardaloedd hynny lle caiff ei chyflwyno.

## Dirwyon a chosbau am beidio â chofrestru neu am beidio â thalu'r ardoll

Bydd cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â gofynion cofrestru. Y bwriad yw y bydd torri rheolau yn arwain at gosb ariannol.

Mae cosbau ardoll ymwelwyr wedi'u modelu ar y dull llwyddiannus yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, gyda system bwyntiau'n cael ei hychwanegu ar gyfer cyflwyno ffurflenni yn hwyr. Ni fydd darparwyr llety yn cael eu cosbi'n ariannol y tro cyntaf y byddant yn cyflwyno ffurflen hwyr.

## Amserlen

Bydd awdurdod lleol fel arfer yn rhoi o leiaf ddeuddeg mis o rybudd cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr. Y dyddiad cynharaf posibl y gallai ardoll ymwelwyr gael ei chyflwyno yw 2027.



Bydd y broses gofrestru ar gyfer pob darparwr llety yn dechrau yn nhymor yr **hydref 2026.**



Byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr yn gam yn nes tuag at Gymru decach, fwy cynaliadwy, lle mae manteision a chyfrifoldebau twristiaeth yn cael eu rhannu gan bawb.

**I gael gwybodaeth fanylach, ewch i:**

**www.llyw.cymru/ardollymwelwyr**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52896, ISBN Digidol 978-1-80633-416-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg